

Centre of
expertise
on child
sexual abuse

Arwyddion a dangosyddion

Templed ar gyfer adnabod a
chofnodi pryderon
ynghylch cam-drin plant



Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gamdrin plant yn rhywiol

Ein nod yn y pen draw yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy wneud mwy i atal ac ymateb yn well i'r broblem, fel y gall plant fyw'n rhydd o'r bygythiad a'r niwed a achosir gan gam-drin rhywiol.

Pwy ydym ni

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid fel sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Ein nodau

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o natur a pha mor gyffredin yw'r broblem
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- atal a tharfu'n fwy effeithiol ar gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o ymddygiad/parhad camdriniol.

Beth wnawn ni

Ceisiwn gyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- producing and sharing information about the scale and nature of, and response to, child sexual abuse
- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am natur a pha mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- rhoi sylw i'r bylchau yn ein gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- datblygu Llwybr Ymateb Cam-drin Plant yn Rhywiol fel adnodd amlasiantaethol, ac adnoddau cysylltiedig
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- cyfrannu at a dylanwadu ar bolisi.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn: www.csacentre.org.uk

Ar gyfer pwy mae'r templed hwn?

Crëwyd y templed hwn i gefnogi gweithwyr proffesiynol ar draws ystod o wahanol sefydliadau ac asiantaethau i arsylwi, cofnodi a chyfleu eu pryderon ynghylch cam-drin plant posibl.

Beth all y templed hwn eich helpu chi ei wneud?

Nid yw'r rhan fwyaf o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn dweud wrth unrhyw un am hyn ar y pryd; yn hytrach, efallai y byddant yn arddangos arwyddion a dangosyddion emosiynol, ymddygiadol a chorfforol eraill o'u camdriniaeth. Os bydd gweithwyr proffesiynol yn aros i blant ddweud wrthyn nhw beth sy'n digwydd cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu, mae perygl na fydd plant yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi mewn dull amserol.

Anaml iawn y bydd yn bosibl gwneud 'diagnosis' o gamdriniaeth rywiol o arwyddion a dangosyddion unigol; gallai ymddygiad plentyn fod yn arwydd o gam-drin rhywiol (a gallai rhai mathau o ymddygiad fod yn ddangosyddion cryfach nac eraill), er enghraifft, ond gallent fod o ganlyniad i ffactorau eraill yn eu bywydau mewn gwirionedd. A gallai plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol brofi mathau eraill o gamdriniaeth. O ganlyniad, mae arwyddion o gam-drin rhywiol yn cael eu methu neu eu diystyru'n aml, ac mae plant nad ydynt wedi dweud wrth unrhyw un ar lafar am eu camdriniaeth yn parhau i fod mewn perygl.

Er mwyn ymyrryd yn effeithiol mewn achos o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, bydd angen i chi allu 'creu darlun' o'ch pryderon – nid yn unig yr arwyddion a'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â'r plentyn, ond hefyd y dangosyddion posibl o ymddygiad cam-drin rhywiol y rhai a allai fod yn eu cam-drin. Yn ogystal, gallai rhai ffactorau yn rheulu neu amgylchedd y plentyn gynyddu'r cyfleoedd i'r gamdriniaeth ddigwydd, a bydd deall y rhain yn eich galluogi i leihau'r risg a datblygu cryfderau pan fyddwch yn pryderus.

Ceisio'r templed hwn greu iaith gyffredin ymhlith gweithwyr proffesiynol i drafod, cofnodi a rhannu pryderon y mae plentyn y, neu wedi'i, gam-drin yn rhywiol. Ceisio eich helpu i:

- ystyried, adnabod a chofnodi'n glir arwyddion a allai ddangos bod cam-drin rhywiol yn, neu wedi digwydd
- trafod ac archwilio pryderon bod plentyn yn, neu wedi'i, gam-drin yn rhywiol, a chyfleu'r pryderon hynny i sefydliadau ac asiantaethau eraill.

Gallwch ddarllen am ddatblygiad trylwyr a'r broses o adolygu'r templed [ar ddiwedd y ddogfen hon](#).

Sut i ddefnyddio'r templed hwn

Nid yw'r templed hwn yn offer diagnostig, ac ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel 'asesiad risg' neu ymarfer 'ticio blwch': efallai na fydd plentyn yn arddangos unrhyw arwyddion eu cam-drin yn rhywiol, ac y gallai'r arwyddion a ddangosir ganddynt awgrymu cam-drin rhywiol neu rywbeth arall sy'n digwydd yn eu bywydau.

Nid yw'r templed hwn yn disodli arsylwadau pellach ac ni ddylid ei ddefnyddio i gyfathrebu'n uniongyrchol â phlant a'u teuluoedd, ond gall fod yn ysgogiad i'ch helpu i benderfynu pryd i siarad gyda phlant, eu rhieni/gofalwyr neu asiantaethau eraill – a beth i'w drafod gyda hwy. Dylid ei ddefnyddio i hysbysu, yn hytrach nac i lunio penderfyniadau proffesiynol.

Cofiwch fod ymddygiad ac ymatebion emosiynol plant yn wahanol ar wahanol oedrannau – gallai rhywbeth sy'n poeni plentyn tair oed gael ei ystyried yn 'normal' i blentyn 13 oed. Wrth ddehongli arwyddion a dangosyddion camdriniaeth bosibl, bydd angen i chi ddefnyddio eich dealltwriaeth o ddatblygiad plant a'ch gwybodaeth am y plentyn unigol y mae gennych bryderon yn ei gylch.

Mae rhai rhannau o'r templed yn cynnwys dolenni i nodiadau esboniadol, sy'n dweud wrthyhch pam mae arwyddion/dangosyddion penodol wedi'u cynnwys a sut maen nhw'n berthnasol i wahanol grwpiau o blant.

Mae rhai rhannau o'r templed yn cynnwys dolenni i nodiadau esboniadol, sy'n dweud wrthyhch pam mae arwyddion/dangosyddion penodol wedi'u cynnwys a sut maent yn berthnasol i wahanol grwpiau o blant. Wrth gwblhau'r templed, cyfeiriwch at y nodiadau esboniadol hyn. (Er mwyn gallu darllen y testun yn rhwydd, nid yw ffynonellau gwybodaeth

Pryd y dylech gwblhau'r templed

Mae'r templed hwn yn darparu man cychwyn i ysgogi archwiliad pellach, a dylid ei ddefnyddio mewn ffordd ddeinamig yn hytrach nag fel templed i'w ddefnyddio unwaith – gallai mwy o wybodaeth ddod i'r amlwg dros amser, felly rydym yn eich cyngori i ddychwelyd at y templed o bryd i'w gilydd.

Os ydych yn poeni am blentyn yr ydych wedi dod cael cyswllt gyda hwy yn eich rôl broffesiynol, rydym yn argymhell eich bod yn cwblhau'r templed gyda'r wybodaeth sydd gennych chi a'ch asiantaeth amdanynt ar hyn o bryd. Mae angen dull aml-asiantaeth i ddiogelu plant ac mae'n annhebygol y bydd gan un asiantaeth unigol yr holl wybodaeth sydd ei hangen i greu'r darlun. Os oes cyfranogiad aml-asiantaeth eisoes gyda'r plentyn, dylech ystyried pa wybodaeth bellach sydd ar gael yn y grŵp aml-asiantaeth y gellir ei hychwanegu.

Ar gyfer pob arwydd a dangosydd rydych wedi'u harsylwi, nodwch beth rydych wedi'i weld a phryd, gan gofio (pan fo'n berthnasol) cynnwys cyd-destun yr arsylwad. Cofiwch hefyd gynnwys arwyddion a dangosyddion y dywedwyd wrthyhch amdanynt, gan nodi pwy ddywedodd wrthyhch amdanynt a phryd. Ar ôl i chi weithio drwy bob adran, bydd eich pryderon wedi'u crynhoi mewn un ddogfen, a fydd yn darparu darlun o'ch pryderon.

Yn amodol ar y darlun rydych wedi'i lunio, dylech ystyried:

- a oes gan eich sefydliad/asiantaeth unrhyw wybodaeth bellach y gellir ei hychwanegu;
- a yw'r darlun yn dangos bod angen archwiliad pellach gyda'r plentyn neu eu rhieni/gofalwyr;
- a yw'r darlun yn dynodi lefel o bryder sy'n gwarantu atgyfeiriad diogelu prydlon;
- a yw'r darlun yn dynodi lefel o bryder y dylid ei rhannu â gweithwyr proffesiynol eraill allweddol eraill yn eich asiantaeth;
- a oes angen gwaith monitro pellach o'r sefyllfa.

Cam-drin plant yn rhywiol: Arwyddion a dangosyddion o bryder posibl

Noder: er symrlwydd, yn y templed hwn rydym yn defnyddio'r term 'plentyn' i olygu unrhyw un o dan 18 oed ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio y gall pobl ifanc yn eu harddegau yn ogystal â phlant iau gael eu cam-drin yn rhywiol.

Manylion y plentyn*

Bear in mind that the child's individual characteristics, and a'r ffordd y mae'r nodweddion hynny'n rhyngweithio, beri rhwystrau iddynt ddweud am unrhyw gamdriniaeth y maent wedi'i phrofi.

Enw:

Dyddiad geni:

Oedran:

Rhywedd:

Ethnigrwydd:

Crefydd:

Anabledd:

Cyfeiriadedd rhywiol:

Anghenion cyfathrebu/dull cyfathrebu a ffefrir::

Manylion yr unigolyn sy'n cwblhau'r templed

Enw:

Rôl:

Dyddiad cwblhau:

Dyddiad adolygu:

* Wrth gofnodi, storio a rhannu'r wybodaeth hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data a diogelwch data eich sefydliad.

Ymddygiad y plentyn

Y mathau o ymddygiad mewn plant a allai fod yn arwydd o gam-drin rhywiol

Mathau o ymddygiad a allai ddangos bod plentyn eisiau nodi ei fod yn cael ei gam-drin yn rhywiol

Adroddiadau llawn neu rannol gan blentyn eu bod yn, neu wedi'u cam-drin yn rhywiol

Gwneud awgrymiadau/gadael cliwiau i ysgogi trafodaeth am faterion rhywiol

Mae mathau o ymddygiad sy'n amlwg yn rhywiol sydd, yn benodol ymhlith plant ifanc, yn arwydd amlwg iawn o gam-drin

Gofyn i blentyn arall ymddwyn yn rhywiol, neu chwarae gemau rhywioli

Ymddwyn mewn ffordd ddi-hid/amhriodol yn rhywiol gydag oedolion

Gwisgo'n rhywiol iawn

Yn dynwared ymddygiad rhywiol gydag anifeiliaid neu deganau

Gosod gwrthrychau yn eu gwain neu anws

Mastyrbio neu hunan-leddfu'n ormodol yn rhywiol

Ysgrifennu neu dynnu lluniau o ddelweddau rhywiol neu ddychrynlyd

Defnyddio geiriau newydd am ryw neu'r organau cenhedlu

Pobl ifanc yn eu harddegau yn cael rhyw gyda llawer o bobl

Defnydd gormodol o bornograffi

Y mathau o ymddygiad mewn plant a allai fod yn arwydd o gam-drin rhywiol

Mathau o ymddygiad sy'n arwydd o ofid emosiynol a allai fod yn gysylltiedig â cham-drin rhywiol a/neu faterion eraill (Gweler y nodyn am [blant anabl yn arddangos y mathau hyn o ymddygiad](#))

Cael hunllefau neu anawsterau cysgu heb esboniad

Arddangos newidiadau mewn hwyliau neu ymddygiad (e.e. ymddangos yn ofnus, yn ddistaw neu'n 'rhewi' neu'n arddangos ansicrwydd)

Datblygu ofnau newydd neu anarferol o bobl neu leoedd penodol

Ymddangos yn bell i ffwrdd neu'n ddatgysylltiedig

Gwrthod/osgoi agosatrwydd

Ymddangos yn bryderus/gorwyliadwrus

Atchweliad i ymddygiad iau (e.e. gwlychu'r gwely neu sugno bawd)

Ymddangos yn isel eu hysbryd

Mynegi teimladau negyddol am eu hunain neu fod y corff yn atgas neu'n ddrwg

Datblygu problemau bwyta (e.e. gwrthod bwyta neu orfwyta)

Camddefnyddio sylweddau neu alcohol

Hunan-niweidio

Mynegi teimladau/ymgeisiau hunanladdol

Mynegi ymddygiad blin, ymosodol neu dreisgar

Bod yn ofnus iawn o driniaethau deintyddol/meddygol

Y mathau o ymddygiad mewn plant a allai fod yn arwydd o gam-drin rhywiol

Newidiadau i fathau o ymddygiad a pherthnasoedd blaenorol arferol

Newidiadau anarferol i hylendid personol (e.e. dim neu ormodol)

Gwrthod neu fynd yn ofidus gyda gofal personol (e.e. newid cewyn/clwt) neu wrth ddadwisgo amser gwely/bath, ar gyfer nofio ac yn y blaen

Newid mewn gwisg: naill ai'n ymddwyn yn rhywiol iawn neu orchuddio eu hunain yn ormodol

Rhedeg i ffwrdd o adref a/neu'r ysgol

Siarad am ffrind newydd, hyn

Gwrthod neu ffraeo gyda grwp ffrindiau blaenorol

Colli diddordeb yn ddirybudd neu ymdrech gyda gwaith ysgol neu weithgareddau chwaraeon a hamdden

Treulio llawer mwy neu lawer llai o amser ar-lein, yn tecstio, defnyddio cyfryngau cymdeithasol neu chwarae gemau cyfrifiadurol

Bod yn gyfrinachol ynghylch bod ar-lein/defnyddio ffôn symudol neu ymddangos yn ofidus/blin wedyn

Mae ganddynt arian, tegau neu arhegion heb esboniad

Mathau eraill o arwyddion ymddygiad rydych wedi'u harsylwi sy'n peri pryder i chi

Arwyddion corfforol

Arwyddion corfforol a allai fod yn arwydd o gam-drin rhywiol

Niweidiau corfforol a allai fod o ganlyniad uniongyrchol i gam-drin, yn benodol mewn plant ifanc

Briwiau neu farciau mewn lleoedd anghyffredin

Poen cyson neu ailadroddus wrth bi-pi neu ysgarthu

Haint y llwybr wrinol (gallai arwyddion o hyn gynnwys plentyn yn gofyn yn aml i fynd i'r toiled, gwingo yn eu sedd neu ddal eu hun mewn ffordd sy'n awgrymu eu bod yn anghyfforddus)

Afliwio, gwaedu neu redlif o'r organau cenhedlu, anws neu'r geg

Rhwygiadau i'r anws neu'r wain

Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, gan gynnwys defaid gwenerol

Beichiogrwydd

Arwyddion corfforol a allai fod yn arwydd o gam-drin rhywiol

Arwyddion corfforol eraill a allai fod yn gysylltiedig ag effaith emosiynol camdriniaeth

Tystiolaeth o hunan-niweidio

Colli neu fagu pwysau sylweddol

Anawsterau yn llyncu wrth fwyta

Gwlychu neu faeddu nad yw'n gysylltiedig â dysgu i ddefnyddio'r toiled

Anhwylerau cyson neu ailadroddus (e.e. poen bol) heb achos organig

Arwyddion corfforol eraill rydych wedi'u harsylwi sydd wedi peri pryder i chi

Behaviour of people around the child

Wrth greu darlun o bryderon, mae'n ddefnyddiol ystyried yr arwyddion a'r dangosyddion o gam-drin rhywiol yn y plentyn unigol, yn ogystal â'r arwyddion a'r dangosyddion o ymddygiad camdriniol (gan gynnwys ymddygiad paratoi i bwrpas rhyw) yn y bobl o amgylch y plentyn. Gallai hyn fod yn frawd neu chwaer hŷn, cefnder neu oedolyn arall yng nghartref y teulu; plentyn arall yn ei ysgol neu ei leoliad gofal; neu oedolyn mewn swydd o ymddiriedaeth neu awdurdod (e.e. mewn lleoliad sefydliadol fel sefydliad troseddwy'r ifanc).

Yn ddibynnol ar eich rôl, efallai bod gennych fynediad i'r holl wybodaeth hon neu ddim mynediad o gwbl, ond efallai y bydd gan eraill yn eich rhwydwaith aml-asiantaeth wybodaeth y gellir ei hychwanegu. Gallai'r adran hon eich rhybuddio am feysydd o fywyd y plentyn y gallai fod angen i chi ymchwilio ymhellach iddynt.

Mathau o ymddygiad a allai awgrymu bod oedolyn neu blentyn hŷn yn paratoi plentyn i bwrpas rhyw neu'n eu cam-drin yn rhywiol

Normaleiddio ymddygiad amhriodol a rhywiol

Annog y plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau 'oedolion'

Annog y plentyn i wisgo mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn rhywiol gan oedolion

Gadael drysau'r ystafell wely ac ystafell ymolchi ar agor

Chwarae-ymladd/cosi/cyffwrdd yn ddamweiniol ar bwrpas'

Annog noethni yn y cartref neu leoliad gofal

Gwisgo dillad amhriodol (e.e. dangos y corff) o amgylch y ty

Siarad am ryw, gwneud jôcs rhywiol neu ddefnyddio iaith rywiol ymosodol tuag at y plentyn

Amlygu'r plentyn i bornograffi

Cyfathrebu mewn ffordd rywiol gyda phlentyn (e.e. drwy alwadau ffôn, tecstio neu ar y cyfryngau cymdeithasol)

Mynd â'r plentyn i leoedd 'cyfrinachol' neu chwarae gemau 'arbennig' gyda hwy (e.e. meddyg a chlaf, tynnu dillad) yn arbennig gemau anarferol i'w hoedran

Dangos organau cenhedlu i blant iau

Datblygu perthynas rhy unigryw gyda'r plentyn

Prynu anrhegion yn aml i'r plentyn

Dethol y plentyn, naill ai i'w ffafrio neu eu bwlio

Treulio cyfnodau anarferol o hir ar eu pen eu hunain gyda'r plentyn (e.e. mynd â hwy i weithgareddau, gwarchod)

Ceisio cwmni'r plentyn a/neu dreulio cyfnodau anarferol o hir yn eu cwmni

Eisiau rhannu gwely gyda'r plentyn

Mynnu cofleidio neu gusanu'r plentyn pan nad yw'r plentyn eisiau gwneud hynny

Rhannu alcohol neu gyffuriau gyda'r plentyn

Tarfau ar y berthynas rhwng y plentyn a rhiant/gofalwr (e.e. drwy eu tansellio, eu beirniadu neu 'fabwysiadu'r rôl rhiant)

Mathau o ymddygiad a allai awgrymu bod oedolyn neu blentyn hŷn yn paratoi plentyn i bwrpas rhyw neu'n eu cam-drin yn rhywiol

Rheoli'r plant ac oedolion yn y teulu a'u perthnasoedd ag eraill

Cyfrannu'n ormodol yng ngofal personol y plentyn

Atal plant rhag treulio amser gyda ffrindiau/cysgu dros nos

Cyfyngu cyswllt gyda'r teulu ehangach

Rheoli'r cyswllt gyda gweithwyr proffesiynol (e.e. bob amser yn bresennol mewn apwyntiadau ysgol/meddygol, hyd yn oed pan fydd y gweithiwr proffesiynol yn awgrymu treulio amser gyda'r plentyn yn unig)

Defnyddio technoleg newydd gyda'r plentyn ac eithrio oedolion

Mathau eraill o arwyddion ymddygiad sydd wedi peri pryder i chi

Arwyddion amgylcheddol

Wrth greu darlun o bryderon, mae'n ddefnyddiol deall y cyd-destun teulu neu amgylcheddol y mae'r plentyn yn byw ynddo, oherwydd gallai rhai ffactorau gynyddu bregusrwydd i niwed rhywiol. Wrth nodi'r ffactorau hyn, gallwch ystyried sut y gallent fod yn atal eich plentyn rhag dweud beth sy'n digwydd iddyn nhw; ystyriwch eich pryderon; a meddwl sut y dylid canolbwyntio eich ymyriadau gyda'r plentyn a'u teulu er mwyn lleihau unrhyw risgiau.

Yn ddibynnol ar eich rôl chi, efallai eich bod yn gallu cael mynediad i'r holl wybodaeth hon, neu efallai nad oes gennych unrhyw fynediad, ond gallai fod gan aelodau eraill o'ch rhwydwaith aml-asiantaeth wybodaeth y gellir ei hychwanegu. Gallai'r adran hon eich rhybuddio am feysydd o fywyd y plentyn y gallai fod angen ymchwilio iddynt ymhellach.

Arwyddion a dangosyddion yn amgylchedd y plentyn a allai eu gwneud yn fwy bregus i gam-drin rhywiol

Ffactorau sy'n cynyddu'r cyfleoedd i gamdriniaeth ddigwydd

Mae'r plentyn mewn gofal preswyl

Mae'r plentyn yn anabl

Mae gan y plentyn gysylltiad â gangiau

Mae teulu'r plentyn wedi'u hynysu'n gymdeithasol gyda chymorth allanol cyfyngedig

Rhieni/gofalwyr yn absennol yn aml (e.e. oherwydd oriau gwaith neu broblemau iechyd)

Perthynas wael rhwng y plentyn a'u rhiant (rhieni)/gofalwr (gofalwyr)

Tystiolaeth o esgeuluso plentyn

Diffyg goruchwyliaeth y tu mewn a/ neu'r tu allan i'r cartref (gan gynnwys y plant yn defnyddio'r rhyngwrwyd heb unrhyw oruchwyliaeth)

Dim ffiniau gan y rhieni, neu ffiniau anghyson, o ran preifatrwydd

Mae gan oedolyn yn y cartref neu rywun yn y teulu/cylch cyfeillgarwch hanes o droseddau rhywiol

Arwyddion a dangosyddion yn amgylchedd y plentyn a allai eu gwneud yn fwy bregus i gam-drin rhywiol

Ffactorau sy'n cynyddu'r pwysau ar deuluoedd ac sy'n gallu taseilio eu gallu i ddiogelu plant

Cam-drin domestig

Salwch meddwl rhiant

Rhiant yn camddefnyddio alcohol
neu sylweddau

Anableddau rhiant, gan gynnwys
anableddau dysgu

Hanes o gam-drin/erledigaeth rywiol
(e.e. profiad rhiant o gamdriniaeth
pan oeddent yn blentyn)

Dangosyddion eraill yn y teulu neu'r amgylchedd sy'n peri pryder i chi

Beth i'w wneud nesaf

Nawr eich bod wedi gweithio drwy bob adran, dylai fod gennych ddarlun o'ch pryderon ynghylch y plentyn. Yn amodol ar y darlun rydych wedi'i greu, dylech ystyried:

- a oes gan eich sefydliad/asiantaeth wybodaeth bellach y gellir ei hychwanegu
- a yw'r darlun yn dangos bod angen trafodaeth bellach gyda'r plentyn neu eu rhieni/gofalwyr
- a yw'r darlun yn dangos lefel o bryder sy'n galw am atgyfeiriad diogelu brys
- a yw'r darlun yn dangos lefel o bryder y dylid ei rhannu gyda gweithwyr proffesiynol allweddol eraill yn eich asiantaeth
- a oes angen monitro'r sefyllfa ymhellach.

Nodiadau esboniadol

Nod y nodiadau hyn yw eich helpu i ddeall arwyddocâd yr arwyddion a'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y templed. Fe'u darperir i ysgogi myfyrio pellach ar yr hyn a allai fod yn digwydd i'r plentyn ac o'i gwmpas.

Manylion y plentyn

Yn ogystal ag ystyried sut y gall pob un o'r ffactorau unigol isod fod yn rhwystr i blentyn ddweud am ei gamdriniaeth, dylech geisio deall natur gydgysylltiedig categorïau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhyw, a systemau gwahaniaethu rhyngddibynnol bodoli rhyngddynt.

Enghraifft

Mae Tia yn ferch 15 oed, mae ganddi anabledd dysgu ac mae'n byw mewn cymuned Teithwyr. Lesbiad yw Tia. Mae ei hewythr wedi bod yn ei cham-drin yn rhywiol ers tair blynedd.

Mae cymunedau teithwyr yn aml yn gymunedau 'caeedig' (h.y. wedi'u hynysu oddi wrth y gymdeithas brif ffrwd, gyda chysylltiadau cymdeithasol cryf sy'n seiliedig ar ddiwylliant, treftadaeth, crefydd ac iaith). Mae ymchwil wedi canfod bod rhai grwpiau sy'n cynnwys y Romani, Teithwyr Gwyddelig, Iddewon Tra-uniongred a rhai cymunedau gwasgaredig De Asiaidd yn profi rhwystrau ychwanegol i ddweud am gam-drin plant yn rhywiol, yn enwedig mewn perthynas â'u systemau cymorth a chyfiawnder crefyddol a mewnlol ar wahân – ac mae arweinwyr y cymunedau hyn yn cyfyngu mynediad weithiau er mwyn diogelu'r gymuned a'r diwylliant rhag dylanwad neu niwed allanol.

Mae'n bosibl y bydd yn well gan gymunedau Teithwyr addysgu eu plant gartref ac eithrio o anfon eu plant i'r ysgol; mae'n bosibl bod y plant hynny sy'n mynychu'r ysgol yn mynychu'n afreolaidd, a/neu efallai y byddant yn cael eu tynnu allan o'r ysgol ar oedran ifanc. O ganlyniad i hyn, efallai mai cyfleoedd cyfyngedig fydd gan y plant hyn i ddysgu am ddatblygiad rhywiol a pherthnasoedd iach mewn amgylchedd ysgol.

Fel plentyn ag anabledd dysgu mewn 'cymuned gaeedig', mae'n bosibl bod gan Tia lai o fynediad at wasanaethau, sy'n aml yn methu ag estyn allan i blant anabl mewn grwpiau ar y cyrion, sy'n dwysáu'r ymdeimlad o ynysiad.

Mae'n bosibl y bydd gan weithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r gymuned Teithwyr syniadau am sut y bydd plant yn ymddwyn ac yn cyflwyno. Er enghraifft, os yw Tia yn ymddwyn mewn ffordd rywiol iawn tuag at oedolion, sy'n ddangosydd posibl o gam-drin rhywiol, efallai y bydd gweithwyr proffesiynol yn tybio ei bod yn gwneud hyn oherwydd y gymuned y mae'n perthyn iddi, yn hytrach nac am ei bod yn cael ei cham-drin yn rhywiol.

Mae ymchwil yn awgrymu mai yn anaml iawn y mae merched o gymunedau Teithwyr yn siarad am gam-drin rhywiol, oherwydd gallai gweithgaredd rhywiol y tu allan i briodas olygu nad ydynt yn 'bur' ac nad ydynt yn addas ar gyfer priodas. Mae hyn yn creu rhwystr ychwanegol i Tia hysbysu gweithwyr proffesiynol beth sy'n digwydd iddi.

Lesbiad yw Tia. Yn ôl ymchwil, mae llawer o bobl mewn cymunedau Teithwyr yn cuddio eu rhywioldeb rhag ofn iddynt gael eu gwrthod gan eu teulu a/neu'r gymuned.

Fel y gwelwch, mae Tia yn wynebu nifer o rwystrau cysylltiedig sy'n ei hatal rhag trafod cam-drin rhywiol.

Cofiwch fod ymddygiad ac ymatebion emosiynol plant yn wahanol ar wahanol oedrannau – gallai rhywbeth sy'n poeni plentyn tair oed gael ei ystyried yn 'normal' i blentyn 13 oed. Wrth ddehongli arwyddion a dangosyddion camdriniaeth bosibl, bydd angen i chi ddefnyddio eich dealltwriaeth o ddatblygiad plant a'ch gwybodaeth am y plentyn unigol y mae gennych bryderon yn ei gylch..

[Go back to the template](#)

Oedran

Er bod data yn awgrymu bod merched yn fwy tebygol o brofi cam-drin rhywiol na bechgyn, mae yna rwystrau ychwanegol i fechgyn, a allai ei gwneud yn anos iddynt ddatgelu camdriniaeth. Ystyrir bod gwerthoedd cymdeithasol ynghylch gwrywodod a'r canfyddiadau o wrywod fel cyflawnwyr yn cuddio'r ffaith y gall bechgyn a dynion ifanc fod yn ddioddefwyr hefyd. Mae rhagdybiaeth yn aml fod bechgyn yn rhywiol iawn ac yn ymgysylltu mewn rhyw o'u gwirfodd eu hunain, nid am eu bod yn cael eu cam-drin. Gallai bechgyn boeni hefyd y bydd cam-drin rhywiol yn achosi i eraill dybio eu bod yn hoyw, ac mae hyn yn bryder penodol i fechgyn sy'n byw mewn cymunedau lle mae homoffobia yn gyffredin. [Gweler Cyfeiriadedd Rhywiol a hunaniaeth rhywedd](#)

[Go back to the template](#)

Rhywedd

Mae plant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli mewn data mynychder ac ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi'i wneud i arwyddion a dangosyddion penodol camdriniaeth y gallai'r plant hyn eu harddangos. Mae'n bwysig meddwl sut y gallai cefndir ethnig a diwylliannol plentyn effeithio ar eu gallu i roi gwybod am gamdriniaeth – ac effeithio ar allu gweithwyr proffesiynol i adnabod camdriniaeth o'r fath.

Mae cywilydd a stigma yn amgylchynu cam-drin plant yn rhywiol ym mhob cymuned, ond mae ymchwil wedi pwysleisio hyn fel ffactor arbennig sy'n dylanwadu ar sut mae rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ymateb i gamdriniaeth o'r fath. Gall hiliaeth ei gwneud yn anos i blant yn y cymunedau hyn siarad am gam-drin plant yn rhywiol, rhag ofn atgyfnerthu ystrydebau negyddol. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd plant mewn cymunedau De Asiaidd yn dweud wrth unrhyw un eu bod wedi'u cam-drin yn rhywiol, am eu bod yn poeni y bydd pobl yn eu cymuned yn cael eu hystyried yn 'gamdrinwyr plant'; efallai y byddant yn poeni hefyd am wynebu Islamoffobia.

Gallai plant nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf wynebu rhwystrau ychwanegol wrth roi gwybod am gamdriniaeth. Mewn rhai ieithoedd, nid oes unrhyw gyfieithiadau uniongyrchol i eiriau Saesneg sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a'r organau cenhedlu, a gallai cyfieithwyr gael anhawster i ddisgrifio'r ystyr. (Yn yr iaith Wrddw, er enghraifft, mae'r gair 'treisio' yn cael ei gyfieithu fel 'lladrata anrhydedd'). Yn aml, mae'r geiriau sydd eu hangen i ddisgrifio cam-drin rhywiol yn cael eu hystyried yn 'tabŵ' neu'n 'anweddus'; gall hyn fod yn arbennig o heriol i blant sy'n ceisio dweud wrth rywun beth sy'n digwydd, ac i'r cyfieithwyr a allai feddu ar gredoau o barch diwylliannol.

[Go back to the template](#)

Ethnigrwydd

Efallai na fydd plant o gefndiroedd crefyddol ceidwadol yn cael gwybod am ryw a pherthnasoedd, a gallai dysgeidiaeth crefyddol wahardd

Crefydd

unrhyw berthynas neu gyswllt rhywiol cyn priodas. Gall hyn achosi i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol deimlo cywilydd dwys, sy'n eu hatal rhag trafod eu profiadau gydag unrhyw un.

Gallai fod yn anodd disgrifio pwysigrwydd credoau penodol sy'n rhan o grefyddau penodol, yn enwedig os nad ydynt yn meddu ar gredoau o'r fath. Er enghraifft, nid yw'r gred yn y gelfyddyd ddu a ddelir gan rai cymunedau gwasgaredig Affricanaidd yn y DU – a allai achosi i blant boeni y byddent hwy neu eu teulu yn cael eu mellithio pe byddent yn dweud wrth unrhyw un eu bod wedi'u cam-drin – yn cael ei deall yn eang gan weithwyr proffesiynol. Gallai plant yn yr amgylchiadau hyn gael anhawster i rannu eu profiadau gyda phobl y tu allan i'w ffydd eu hunain, nad ydynt yn deall y cyd-destun o gredu'r credoau hyn a'r ofn o ddial.

Dychwelyd i'r templed

Anabledd

Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn cael anhawster amgyffred y gallai plant anabl fod yn ddiodefwr cam-drin rhywiol. Yn rhy aml, nid yw arwyddion a dangosyddion cam-drin rhywiol posibl mewn plant anabl yn cael eu hadnabod neu maent yn cael eu diystyru fel rhan o'u cyflwr, hyd yn oed pan nad oes unrhyw gyswllt rhwng y ddau.

Felly, mae'n bwysig deall beth mae'r anabledd yn ei olygu i'r plentyn a'u bywyd, arddull dysgu a chyfathrebu o ddydd i ddydd. Sut mae hyn yn effeithio ar y ffordd maent yn ymateb a gwneud synnwyr o wybodaeth? A oes ganddynt unrhyw anghenion synhwyraidd y dylid eu hystyried? Beth yw eu patrymau ymateb arferol? Mae'n bosibl eu bod yn arddangos arwyddion sy'n deillio o'u cyflwr, ond mae angen archwilio hyn yn briodol, yn hytrach na llunio tybiaethau.

Dychwelyd i'r templed

Cyfeiriadedd Rhywiol a hunaniaeth rhywedd

Gallai pobl ifanc LGBTQIA+ (pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar neu gwestiynu, rhyngrywiol ac anrhywiol) fod yn amharod i drafod cam-drin rhywiol am eu bod ofn gwaethygu homo/deu/trawsffobia.

Yn ogystal, ychydig iawn o adnoddau addysgol neu wybodaeth gyffredinol sydd ar gael sy'n darparu cyngor i bobl ifanc LGBTQIA+ ynghylch beth yw perthynas iach. Mae agweddau cymdeithas at berthnasoedd rhywiol ymhlith pobl lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn gallu achosi i berthnasoedd rhywiol niweidiol neu anniogel gael eu hystyried yn 'normal'.

Dychwelyd i'r templed

Un penderfynydd allweddol o sut mae plentyn yn cyfathrebu yw eu hoedran a'u cam datblygiad; mae plant iau yn cyfathrebu llai ar lafar o gymharu â phlant yn eu harddegau, er enghraifft. Fodd bynnag, bydd plant yn yr un grŵp oedran yn cyfathrebu mewn nifer o wahanol ffyrdd – rhai o ddewis, eraill oherwydd cyd-destun ieithyddol neu ddiwylliannol neu anhawster/anabled. Beth bynnag fo'r rheswm, mae'n bwysig deall sut mae'r plentyn yn cyfathrebu a beth yw eu hanghenion a'u dewisiadau cyfathrebu unigol. Wrth baratoi i siarad gyda phlentyn, gofynnwch i'ch hun:

- A yw'r plentyn yn defnyddio iaith lafar?
- Ai Saesneg yw iaith gyntaf y plentyn? Os nad, beth yw eu hiaith gyntaf? A ydyn nhw'n defnyddio ieithoedd eraill? A yw'n well ganddyn nhw gyfathrebu am faterion personol neu gymhleth yn eu mamiaith? A oes gan yr iaith honno y geiriau i gyfleu cam-drin plant yn rhywiol? Ac a fyddan nhw'n teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r geiriau hyn?
- Os nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, pwy arall yn eu bywyd sy'n defnyddio'r iaith hon? Unrhyw un y tu allan i'r teulu? A oes angen cyfieithydd?
- Os nad yw'r plentyn yn defnyddio iaith lafar, beth yw'r rheswm am hyn, ac a ydyn nhw erioed wedi defnyddio iaith lafar? Pa dull cyfathrebu a ddefnyddir ganddyn nhw? A oes angen unrhyw fath o iaith arwyddion neu brosesau cyfathrebu gyda chymorth technoleg arnynt – ac, os felly, a yw'n cael ei ddefnyddio'n eang (e.e.; BSL neu Makaton) neu a yw wedi'i ddatblygu gan y plentyn neu eu teulu? Pwy o amgylch y plentyn sy'n deall eu dull cyfathrebu, pa fath o hwylusiad sydd ar gael?
- A oes gan y plentyn therapydd iaith a lleferydd a all eu cefnogi hwy/chi i'w deall yn cyfathrebu?

Dychwelyd i'r templed

Manylion yr unigolyn sy'n cwblhau'r templed

Rydym yn eich cynghori i gwblhau'r templed yn ôl y wybodaeth sydd gennych chi neu eich sefydliad am y plentyn. Yn ddibynnol ar eich rôl chi, efallai eich bod yn gallu cael mynediad i'r holl wybodaeth sydd ei hangen, neu efallai nad oes gennych y mynediad hwn; er mwyn adeiladu darlun llawnach o unrhyw bryderon, dylech ystyried rhannu'r templed (ar yr amod eich bod yn gwneud hynny yn unol â pholisïau diogelu data a rhannu gwybodaeth eich sefydliad) â gweithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn gysylltiedig â'r plentyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant byddar/byddar ac anabl, oherwydd gallai nifer o weithwyr proffesiynol fod yn ymwneud â'u gofal.

Dychwelyd i'r templed

Mae'r templed hwn yn ceisio cefnogi gweithwyr proffesiynol i greu darlun o bryderon. Dylid ei defnyddio mewn ffordd ddeinamig yn hytrach na thempled i'w ddefnyddio unwaith – gallai gwybodaeth bellach ddod i'r amlwg dros amser, felly rydym yn argymhell eich bod yn dychwelyd i'r templed pan fydd pryderon newydd yn codi, neu yn dilyn sgysiau pellach gyda'r plentyn, eu teulu/gofalwyr a/neu weithwyr proffesiynol eraill sydd wedi canfod gwybodaeth newydd.

Dychwelyd i'r templed

Eich rôl chi

Dyddiad adolygu

Mathau o ymddygiad mewn plant sy'n gallu dynodi cam-drin rhywiol

Mathau o ymddygiad a allai ddangos bod plentyn eisiau nodi ei fod yn cael ei gam-drin yn rhywiol

Adroddiadau llawn neu rannol gan blentyn eu bod yn, neu wedi'u cam-drin yn rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn drosedd gudd; nid yw llawer o'r rhai sy'n ei brofi yn rhoi gwybod am eu profiadau am flynyddoedd lawer, os o gwbl. Pan fydd plentyn yn dweud eu bod yn cael eu cam-drin yn rhywiol, mae'n bwysig eu cymryd o ddifri.

Pan fydd plentyn yn trafod cam-drin rhywiol gyda chi am y tro cyntaf, gall hyn ddigwydd yn 'ddigymell' (h.y. heb i chi eu cymell/holi). Gallai gwers yn yr ysgol, rhaglen deledu neu ddwysâd yn y cam-drin eu hannog i wneud hyn. Weithiau gallai plentyn sôn am eu camdriniaeth yn ddamweiniol, neu gallai eu hangen neu ddymuniaid i siarad gyda chi ddatblygu dros amser fel na allant gadw'r gyfrinach mwyach. Fel arall, efallai y byddan nhw'n dweud wrthyhych am eu bod yn credu bod plant eraill, er enghraifft eu brodyr neu chwiorydd, mewn perygl o gael eu cam-drin.

I blant eraill, mae'n bosibl na fydd trafod eu camdriniaeth yn digwydd yn ddigymell o gwbl, ac ond yn digwydd o gael eu cymell. Gallai hyn ddigwydd yn ystod archwiliad meddygol, ymchwiliad amddiffyn plant neu asesiad o'u hanghenion, cyfweliad neu sesiwn therapiwtig – neu'n syml pan fydd athro/athrawes neu weithiwr iechyd proffesiynol yn sylwi y gallai bod rhywbeth o'i le a'u bod yn eu holi.

Anaml iawn y bydd plentyn yn dweud popeth am eu camdriniaeth ar un achlysur; yn hytrach, mae'n broses dros amser. Efallai y byddant yn symud o ddulliau anfwriadol ac anuniongyrchol (er enghraifft arwyddion ymddygiad) drwy ddulliau mwy uniongyrchol (er enghraifft dweud wrth rywun yn fwriadol neu'n ddamweiniol am beth sy'n digwydd).

Gallai'r manylion a roddir gan y plentyn fod yn amwys neu'n brin, oherwydd efallai na allant gofio gwybodaeth benodol. Efallai mai dim ond gwybodaeth rannol a roddir, ac mae'n bosibl y gallai manylion newid dros amser – ac y bydd manylion ar goll yn llwyr pan fydd plentyn yn cyfathrebu drwy ymddygiad neu arwyddion eraill.

Ar ôl dweud wrth rywun eu bod yn cael eu cam-drin yn rhywiol, bydd rhai plant yn tynnu eu honiad yn ôl. Mae hyn yn gyffredin iawn ymhlith plant ifanc, y rhai nad yw eu prif ofalwr yn eu credu a'r rhai sydd wedi derbyn ymateb negyddol i'r hyn a ddywedwyd. Nid yw tynnu honiad yn ôl yn dynodi nad yw'r plentyn wedi'i gam-drin, ac felly dylid cynnwys hyn wrth gwblhau'r templed hwn.

Dychwelyd i'r templed

Mae mathau o ymddygiad sy'n amlwg yn rhywiol sydd, yn benodol ymhlith plant ifanc, yn arwydd amlwg iawn o gam-drin

Mae datblygiad rhywiol plant yn cael ei siapio gan eu hamgylchedd, eu profiadau a'r hyn maent yn ei weld; dyna pam y gall ymddygiad rhy aeddfed a/neu annodweddiadol a gorchestion rhywiol yn ystod plentyndod fod yn ddangosydd o rywioli trawmatig drwy gam-drin rhywiol. Mae tua thraean o blant sydd wedi profi cam-drin rhywiol yn arddangos ymddygiad rhywiol sydd y tu hwnt i'r normau arferol i blant o'r oedran hwn, neu maent yn dangos lefelau uwch o ymddygiad chwarae wedi'i rywioli neu ymddygiad synfyfryol.

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan mewn rhyw fath o chwilfrydedd a chwarae rhywiol yn ystod plentyndod, ac mae mynegi teimladau rhywiol yn ystod yr ardegau yn rhan bwysig o'n twf

tuag at fod yn oedolyn. Ni ddylai ymddygiad rhywiol, ynddo'i hun, fod yn sail i gasgliad o gam-drin rhywiol, ond mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun normau datblygiadol (gan gynnwys unrhyw anableddau) a dylanwad ffactorau amgylcheddol eraill yn ogystal â mathau eraill o erledigaeth bosibl. Oherwydd hyn, mae angen i weithwyr diogelu proffesiynol allu gwahaniaethu rhwng datblygiad a chwilfrydedd rhywiol normadol, disgwylidig a allai beri mwy o bryder.

Mae gwybodaeth bellach i rieni a gweithwyr proffesiynol am ymddygiad rhywiol datblygedig disgwylidig ar wahanol oedrannau a chyfnodau o blentyndod ar gael yn:

- www.parentsprotect.co.uk/traffic-light.htm
- www.enhertscgc.nhs.uk/sites/default/files/Sexual-Behaviours-Traffic-Light.pdf

Dylech boeni a yw unrhyw rai o'r meini prawf canlynol yn cael eu cyflawni:

- Mae'r ymddygiad yn awgrymu gwybodaeth rywiol sy'n anarferol i blentyn o'r oedran a'r cam hwn yn eu datblygiad.
- Mae'r ymddygiad y tu hwnt i'r normau datblygiadol ar gyfer oedran y plentyn.
- Mae'r ymddygiad rhwng plant o wahanol oedrannau neu alluoedd datblygiadol, neu wahaniaethau pŵer eraill rhyngddynt.
- Mae'r ymddygiad yn digwydd yn amlach na'r hyn a ddisgwylir yn ddatblygiadol.
- Mae'r ymddygiad yn amharu ar ddatblygiad y plentyn.
- Mae'r ymddygiad yn digwydd gyda gorfodaeth, bygythiad neu rym.
- Mae'r ymddygiad yn gysylltiedig â gofid emosiynol (pan fydd y plentyn yn teimlo'n bryderus, er enghraifft)
- Mae'r ymddygiad yn parhau dro ar ôl tro mewn cyfrinachedd, ar ôl ymyrraeth gan oedolion sy'n darparu gofal.

Efallai na fydd gan blant anabl yr un mynediad i addysg rhyw a pherthnasoedd â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl, efallai y bydd ganddynt lai o ymwybyddiaeth o normau cymdeithasol neu efallai nad ydynt wedi gallu prosesu negeseuon am ffiniau priodol a chyffwrdd. Efallai y bydd gan rai materion synhwyrdd, neu batrymau penodol o geisio ysgogiadau/cysur. Os bydd plentyn anabl yn arddangos ymddygiad rhywiol, mae'n hollbwysig trafod yr ymddygiad hwn a'r rhesymau posibl drostynt gyda phobl sy'n adnabod y plentyn yn dda mewn gwahanol leoliadau lle mae'r plentyn yn treulio eu hamser. Mae hefyd yr un mor bwysig peidio cymryd yn caniatool bod eu hymddygiad o ganlyniad i'w hanabledd yn unig.

I gael gwybodaeth am gyfreithlondeb gweithgaredd rhywiol plant, gweler [Gweithgaredd rhywiol a chydysniad pobl ifanc o dan 18 oed.](#)

Dychwelyd i'r templed

Ymddwyn mewn ffordd ddi-hid/amhriodol yn rhywiol gydag oedolion, neu wisgo'n rhywiol iawn

Dylid ystyried ymddwyn mewn ffordd ddi-hid neu amhriodol yn rhywiol gydag oedolion fod yn bryder mewn unrhyw blentyn.

Fodd bynnag, ystyrir bod rhai grwpiau o blant yn llai diniwed neu'n ymddwyn mwy fel oedolion na'u cyfoedion – gelwir hyn yn 'dueddiad oedolionoli' ac mae'n fath o ragfarn hiliol. Gall tuedd oedolionoli ddylanwadu ar farn pobl am ddatblygiad ac ymddygiad rhywiol rhai pobl ifanc: er enghraifft, gallai ymddygiad rhywiol di-hid gan ferched Du neu ferched o gymunedau Teithio, neu wisgo mewn ffordd rywiol, gael ei ystyried yn 'naturiol' yn hytrach nac yn ddangosydd pryder. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn arddangos y tueddiad hwn.

Dychwelyd i'r templed

Defnyddio geiriau newydd am ryw neu'r organau cenhedlu

Os bydd plentyn yn dechrau defnyddio geiriau newydd ar gyfer rhyw neu'r organau cenhedlu, gallai hyn fod yn arwydd eu bod yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Dylech fod yn ymwybodol hefyd nad oes unrhyw gyfieithiadau uniongyrchol i eiriau Saesneg am ryw a'r organau cenhedlu mewn rhai ieithoedd, neu ystyrir bod y geiriau sydd eu hangen i'w disgrifio yn 'tabŵ' neu'n anweddu; gweler Ethnigrwydd.

Dychwelyd i'r templed

Pobl ifanc yn eu harddegau yn cael rhyw gyda llawer o bobl

Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn bryderus ynghylch unrhyw berson ifanc yn ei arddegau sy'n cael rhyw gyda nifer o wahanol bobl, ond gellir codi pryder ychwanegol os yw'r person ifanc yn ei arddegau o ddiwylliant lle mae rhyw cyn priodi yn cael ei feirniadu'n gryf. Gweler hefyd Ymddwyn mewn ffordd ddi-hid/amhriodol yn rhywiol gydag oedolion.

Dychwelyd i'r templed

Mathau o ymddygiad sy'n arwydd o ofid emosiynol a allai fod yn gysylltiedig â cham-drin rhywiol a/neu faterion eraill

Gallai unrhyw blentyn sydd wedi'i gam-drin yn rhywiol arddangos mathau o ymddygiad o ofid emosiynol, gan gynnwys plant anabl– ond mae llawer o weithwyr proffesiynol yn cael anhawster amgyffred y gallai plant anabl fod yn ddiodefnydd cam-drin rhywiol, felly mae arwyddion a dangosyddion y gallai'r plant hyn fod yn cael eu cam-drin yn rhywiol yn aml yn cael eu methu neu eu diystyru.

Os bydd plentyn anabl yn arddangos y mathau hyn o ymddygiad, mae'n hollbwysig peidio â chymryd yn ganiataol bod hyn o ganlyniad i'w hanabledd yn unig. Meddyliwch am y wybodaeth rydych eisoes wedi'i chofnodi am yr anabledd a beth mae hyn yn ei olygu i'r plentyn (gweler uchod), a siarad gyda'r bobl sy'n eu hadnabod mewn gwahanol leoliadau lle maent yn treulio eu hamser.

Dychwelyd i'r templed

Camddefnyddio sylweddau neu alcohol

Mae camddefnyddio sylweddau neu alcohol yn bryder i unrhyw berson ifanc, ond gellir codi pryder pellach os ydynt o ddiwylliant lle mae defnyddio sylweddau ac alcohol yn cael eu hystyried yn erbyn eu ffydd.

Dychwelyd i'r templed

Gwrthod neu fynd yn ofidus gyda gofal personol (e.e. newid cewyn/clwt) neu wrth ddadwisgo amser bath/gwely, ar gyfer nofio ac yn y blaen

Mae llawer o blant anabl sydd angen gofal personol yn cael eu hamlygu i nifer o wahanol ofalwyr ar hyd y diwrnod ac felly, maent yn wynebu risg uwch o gam-drin rhywiol. Pan fydd cyflwyniadau newydd neu uwch o bryder, mae'n bwysig ystyried a yw'r plentyn yn cyfleu gofid, yn hytrach na thybio bod hyn yn gysylltiedig â'u hanabledd neu 'ymddygiad heriol'.

[Go back to the template](#)

Newid mewn gwisg, naill ai'n ymddwyn yn rhywiol iawn neu orchuddio eu hunain yn ormodol

Gweler [Ymddwyn mewn ffordd ddi-hid/amhriodol yn rhywiol gydag oedolion](#).

[Dychwelyd i'r templed](#)

Newidiadau i fathau o ymddygiad a pherthnasoedd blaenorol

Arwyddion corfforol mewn plentyn a allai fod yn arwydd o gam-drin rhywiol

Gallai plant arddangos arwyddion corfforol sy'n arwydd posibl o gam-drin rhywiol, gan gynnwys dangosyddion clir eu bod wedi bod yn ymgysylltu mewn gweithgaredd rhywiol (e.e. beichiogrwydd, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol). Er nad yw gweithgarwch rhywiol pobl ifanc yn eu harddegau yn gamdriniol, dylech fod yn ymwybodol o'r sefyllfa gyfreithiol.

Niweidiau corfforol a allai fod yn ganlyniad uniongyrchol i gam-drin, yn benodol mewn plant ifanc

Gweithgaredd rhywiol a chydsyniad pobl ifanc o dan 18 oed

Ym mhob un o wledydd y DU, yr oedran cydsyniad (yr oedran cyfreithiol y gall pobl gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol) yw 16 oed, p'un a yw'r gweithgaredd rhywiol rhwng pobl o'r un rhyw neu wahanol rywiau – waeth beth yw cefndir diwylliannol, ethnig neu grefyddol unigolyn.

Ni ddefnyddir y gyfraith i erlyn pobl ifanc 13–15 oed sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol cydsyniol gyda'i gilydd – ond, oherwydd y posibilrwydd nad yw'r ddau unigolyn wedi cydsynio, dylid ystyried gweithgaredd rhywiol o dan oedran bob amser fel dangosydd posibl o gam-drin rhywiol.

Yn ogystal, mae'r gyfraith yn datgan na all plant o dan 13 oed roi eu cydsyniad mewn unrhyw amgylchiadau – felly dylai unrhyw weithgaredd rhywiol gyda phlentyn o dan 13 oed arwain bob amser at atgyfeiriad diogelu plant. Ac mae'n anghyfreithlon i oedolion dros 18 oed ymgysylltu mewn gweithgaredd rhywiol gyda pherson ifanc o dan 16 oed – neu o dan 18 oed, os yw'r oedolyn mewn swydd o ymddiriedaeth (er enghraifft athro/athrawes, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr gofal neu feddyg y person ifanc).

Hyd yn oed pan ystyrir fod pobl ifanc yn ddigon hen i roi eu cydsyniad i weithgaredd rhywiol, mae'n rhaid i'w cydsyniad fod yn ddilys bob amser. Mae angen iddynt wneud dewis, a chael y rhyddid a'r gallu i wneud y dewis hwnnw. Mae canllawiau Llywodraeth y DU ar gam-drin plant yn rhywiol yn nodi, "Os bydd plentyn yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw ddewis ystyrion arall, eu bod o dan ddylanwad sylweddau niweidiol neu os ydynt yn ofni beth allai ddigwydd os nad ydynt yn cydymffurfio....ni ellir rhoi cydsyniad yn gyfreithlon."

Dychwelyd i'r templed

Briwiau neu farciau mewn lleoedd anghyffredin

Dylid ystyried briwiau a marciau corfforol eraill fel arwydd posibl o gam-drin rhywiol mewn unrhyw blentyn. Er y gallai rhai plant anabl fod yn debygol iawn o'u cael (o ganlyniad i symudiadau na allant eu rheoli, er enghraifft, neu gwympiadau yn sgil epilepsi), ni ddylech byth gymryd yn ganiataol mai anabledd y plentyn sy'n bennaf gyfrifol am farciau o'r fath.

Dychwelyd i'r templed

Arwyddion corfforol eraill a allai fod yn gysylltiedig ag effaith emosiynol camdriniaeth

Gwlychu neu faeddu nad yw'n gysylltiedig â dysgu i ddefnyddio'r toiled

Gall rhai plant anabl fod yn fwy tebygol na phlant eraill i wlychu neu faeddu eu hunain, oherwydd eu cyflwr, ond dylech bob amser gadarnhau hyn yn hytrach na chymryd yn ganiataol mai dyma yw'r rheswm: gallai gwlychu neu faeddu fod yn arwydd o gam-drin rhywiol posibl.

Dychwelyd i'r templed

Mathau o ymddygiad a allai awgrymu bod oedolyn neu blentyn hyn yn paratoi plentyn i bwrpas rhyw neu'n eu cam-drin yn rhywiol

Paratoi i bwrpas rhyw

Mae paratoi i bwrpas rhyw yn broses a ddefnyddir i gam-drin yn rhywiol, cam-fanteisio neu fasnachu plant. Gall ddigwydd ar-lein ac mewn person, gan ddieithryn, aelod o'r teulu, ffrind neu rywun arall sy'n hysbys iddyn nhw - er enghraifft athro/athrawes, arweinydd grŵp ffydd neu hyfforddwr chwaraeon. Mae'r unigolyn sydd eisiau cam-drin plentyn yn datblygu perthynas gyda'r plentyn a hynny'n aml gyda phobl arwyddocaol o'u cwmpas, gan sicrhau eu hymddiriedaeth a chael sefyllfa o bŵer dros y plentyn, i baratoi i'w cam-drin.

Gall y broses o baratoi i bwrpas rhyw ddigwydd mewn munudau

mewn un sgwrs ar-lein, neu dros gyfnodau hir o amser, ac mewn rhai achosion, blynyddoedd.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol y gall gweithwyr proffesiynol gael eu 'paratoi' gan rywun sy'n cam-drin neu sy'n bwriadu cam-drin plentyn. Gallai gweithwyr proffesiynol ystyried bod yr unigolyn hwn yn gymwynasgar, dibynadwy a'u bod yn gweithredu er budd gorau'r plentyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl eu bod yn tanseilio'r plentyn neu ei riant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr) yr un pryd – er enghraifft, drwy bwysleisio anawsterau'r rhieni i weithwyr proffesiynol a chyflwyno eu hunain fel y person gorau i helpu'r plentyn. Gall hyn achosi i weithwyr proffesiynol ymddiried yn rhywun sy'n cyflwyno risg i blant mewn gwirionedd.

Dychwelyd i'r templed

Amlygu'r plentyn i bornograffi

Mae'n anghyfreithlon amlygu plant i bornograffi, a defnyddir hyn yn aml yn y broses paratoi i bwrpas rhyw er mwyn lleihau swildod rhywiol plentyn. Gallai plant sy'n gweld eraill, gan gynnwys eu cyfoedion, yn cael rhyw, ac yn ymddangos eu bod yn ei fwynhau, fod yn fwy tebygol o gydymffurfio â gofynion rhywun sy'n eu cam-drin. (Gweler hefyd [paratoi i bwrpas rhyw](#).)

Dychwelyd i'r templed

Cyfathrebu mewn ffordd rywiol gyda phlentyn (e.e. drwy alwadau ffôn, tecstio neu ar y cyfryngau cymdeithasol)

Mae oedolyn (18 oed a hŷn) sy'n cyfathrebu mewn ffordd rywiol gyda phlentyn (16 oed ac iau) at ddibenion boddhad rhywiol yn drosedd yn ôl cyfraith y DU. Gallai'r cyfathrebu hwn fod ar-lein neu all-lein, ar lafar neu'n ysgrifenedig, a chyflawnir trosedd p'un a yw'r plentyn wedi cyfathrebu gyda'r oedolyn ai peidio.

Dychwelyd i'r templed

Eisiau rhannu gwely gyda'r plentyn

Mae'n bwysig nodi y gallai fod angen i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi a/neu mewn tai gorlawn rannu gwely gyda'i gilydd oherwydd rheidrwydd. Mae angen i chi ddeall normau diwylliannol hefyd mewn cysylltiad â'r dangosydd hwn: er enghraifft, mae'n bosibl bod rhai teuluoedd yn ystyried bod cysgu gyda'u plant nes y byddant yn hŷn na'r norm yn rhianta da. Fodd bynnag,

Dychwelyd i'r templed

Dylech fod yn ymwybodol, y gallech chi a'r plentyn a'u rhieni/gofalwyr gael eich 'paratoi' gan rywun sy'n cam-drin neu sy'n bwriadu cam-drin y plentyn. Gweler [paratoi i bwrpas rhyw](#).

Gallai rhai plant byddar/byddar ac anabl, yn arbennig y rhai sy'n byw oddi cartref mewn lleoliadau preswyl, fod mewn perygl uwch o gael eu paratoi i bwrpas rhyw a chael eu cam-drin yn rhywiol; mae hyn oherwydd eu dibyniaeth ar eraill am ofal personol a chyfathrebu, a'u

Normaleiddio
ymddygiad
amhriodol a rhywiol

Datblygu perthynas
rhy unigryw gyda'r
plentyn

Rheoli plant ac
oedolion yn y teulu
a'u perthnasoedd
ag eraill

hamlygiad i nifer o weithwyr proffesiynol gwahanol sy'n gysylltiedig â'u gofal. Gallai pobl eraill yn y lleoliad preswyl sylwi bod aelod o staff yn datblygu diddordeb newydd neu uwch mewn plentyn penodol, cael mwy o bresenoldeb gyda hwy, a thorri ar eu traws neu ateb ar eu rhan.

Dychwelyd i'r templed

Cyfrannu'n ormodol yng ngofal personol y plentyn

Gallai fod angen lefelau uwch o ofal personol ar blant anabl o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl, a gallai hyn eu gwneud yn fwy agored i gam-drin rhywiol.

Dychwelyd i'r templed

Atal plant rhag treulio amser gyda ffrindiau/cysgu dros nos

Mae'n bwysig deall normau diwylliannol mewn cysylltiad â'r dangosydd hwn: er enghraifft, mewn rhai teuluoedd Mwslimaidd, byddai caniatáu i blant gysgu dros nos gyda ffrindiau yn cael ei ystyried yn rhianta gwael.

Dychwelyd i'r templed

Ffactorau sy'n cynyddu'r cyfleoedd i gamdriniaeth ddigwydd

Arwyddion a dangosyddion yn amgylchedd y plentyn a allai eu gwneud yn fwy agored i gam-drin rhywiol

Mae'r plentyn mewn gofal preswyl

Mae tystiolaeth gref bod byw mewn gofal preswyl yn creu risg uwch o gam-drin rhywiol. Gallai plant byddar/byddar ac anabl dreulio cyfnodau hwy mewn sefydliadau, o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl, a gallent gael eu hamlygu i lawer o ofalwyr proffesiynol, sy'n cynyddu'r risg o amlygiad i gam-drin rhywiol. Mae llawer o blant anabl yn cael eu haddysgu i beidio cwestiynu pobl mewn awdurdod, sy'n arwain at amharodrydd i herio sefyllfaoedd posibl o gamdriniaeth.

Canfuwyd bod sefydliadau â diwylliant hierarchaidd a gwrywaidd uchel yn amharod i fynd i'r afael â'u hamgylchedd diwylliannol, gan gynyddu'r risg o gam-drin rhywiol rhwng cyfoedion. Mae anghydbwysedd mawr mewn pŵer rhwng plant a staff, yn ogystal â chodau ymddygiad caeth (mewn sefydliadau gwarchodol, er enghraifft) yn achosi i blant gydymffurfio'n ormodol a gallai fod yn anodd rhoi gwybod am gam-drin.

Dychwelyd i'r templed

Mae'r plentyn yn anabl

Canfuwyd bod plant anabl deirgwaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin rhywiol na phlant nad ydynt yn anabl. Canfu adolygiad o ddangosyddion risg a ffactorau diogelu dystiolaeth gadarn o'r risg uwch hon.

Dylech gofio bod arwyddion a dangosyddion cam-drin rhywiol posibl mewn plant yn aml yn cael eu methu neu eu diystyru fel rhan o'u cyflwr;

oherwydd mae gweithwyr proffesiynol yn cael anhawster i amgyffred y gallai plant anabl fod yn ddiodefwr cam-drin rhywiol; gweler [Anabledd](#).

Dychwelyd i'r templed

Mae gan y plentyn gysylltiad â gangiau

Mae trais a cham-fanteisio'n rhywiol ymhlith pobl ifanc mewn cymdogaethau sy'n cael eu heffeithio gan gangiau yn adlewyrchu'r hyn a wyddom am drais rhywiol a cham-fanteisio'n rhywiol yn gyffredinol: mae'r rhai sy'n cam-drin plant yn wrywaidd yn bennaf ac mae'r diodefwr yn fenywaidd yn bennaf (er bod rhai digwyddiadau o drais rhywiol yn erbyn dynion ifanc); yn ddieithriad mae'n digwydd rhwng plant sy'n adnabod ei gilydd; a chaiff ei ddefnyddio i sicrhau pŵer a rheolaeth.

Fodd bynnag, mae yna rai nodweddion o drais rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol sy'n gysylltiedig â gangiau sy'n unigryw i, neu sy'n cael eu dwysáu gan, yr amgylchedd gang. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnyddio rhyw fel ffordd o dderbyn pobl ifanc mewn gang
- gweithgaredd rhywiol yn gyfnewid am statws neu ddiogelwch (tybiedig)
- merched ifanc yn 'twyllo' pobl mewn gangiau eraill – sefydlu perthnasoedd gyda, neu ddangos diddordeb rhywiol ynddynt, fel dull o'u twyllo.
- Ymosodiad rhywiol fel arf mewn gwrthdaro.

Anaml iawn y mae digwyddiadau trais rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol sy'n gysylltiedig â gangiau yn cael eu hadrodd, am resymau amrywiol: gorfod derbyn profiadau o'r fath; yr ofn o ddial (sy'n gysylltiedig â diffyg ymddiriedaeth y bydd yr heddlu a gwasanaethau eraill yn gallu cynnig diogelwch digonol); a lefelau isel o adrodd trais rhywiol ymhlith pobl ifanc yn gyffredinol.

Dychwelyd i'r templed

Mae teulu'r plentyn wedi'u hynysu'n gymdeithasol gyda chymorth allanol cyfyngedig

Mae bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol yn lleihau'r cyfleoedd i blant ymgysylltu ag eraill a cheisio cymorth. Gallai ynysiad cymdeithasol ddeillio o gael eu haddysgu gartref, bod yn ffoadur neu'n geisiwr lloches, neu nid Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Efallai nad oes gan blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol fynediad at addysg am berthnasoedd rhywiol iach, ac efallai na allant ddeall bod yr hyn sy'n digwydd iddynt yn ddrwg. Yn ogystal, efallai nad oes ganddynt gyfle i feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth gydag oedolion diogel y gallent ymddiried ynddynt a cheisio cymorth.

Dychwelyd i'r templed

Rhieni/gofalwyr yn absennol yn aml (e.e. oherwydd oriau gwaith neu broblemau iechyd)

Mae cam-drin yn digwydd yn y dirgel gan amlaf. Pan fydd rhiant diogel yn absennol o'r cartref, mae mwy o gyfle i gamdriniaeth ddigwydd.

Dychwelyd i'r templed

Perthynas wael rhwng y plentyn a'u rhiant (rhieni)/gofalwr (gofalwyr)

Gallai plant fod mewn mwy o berygl o niwed gan eraill os oes ganddynt berthynas wael gyda'u rhiant (rhieni)/gofalwr (gofalwyr). Mae'n bosibl bod y rhiant (rhieni)/gofalwr (gofalwyr) yn llai ymwybodol o beth sy'n digwydd i'r plentyn; o ganlyniad, bydd pobl sy'n dymuno niweidio'r plentyn yn teimlo'n fwy hyderus i'w paratoi i bwrpas rhyw a'u cam-drin.

Mae plant yn annhebygol o ymddiried mewn rhiant y mae ganddynt berthynas wael â nhw. Bydd pobl sydd eisiau niweidio'r plentyn yn dylanwadu ar anawsterau perthynas: er enghraifft, efallai y byddant yn cynnig perthynas 'o ymddiriedaeth' neu gynhesrwydd emosiynol pan fydd hyn ar goll ym mherthynas y plentyn gyda'u rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr).

Dychwelyd i'r templed

Tystiolaeth o esgeuluso plentyn

Canfuwyd bod oedolion a gawsant eu hesgeuluso eu hunain fel plant (yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr) bum gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cam-drin yn rhywiol cyn iddynt fod yn 16 oed o gymharu â'r rhai na chawsant eu hesgeuluso mewn plentynod.

Mae esgeuluso plant yn gysylltiedig â rhieni sy'n profi ystod o nodweddion sy'n cyd-fodoli, er enghraifft tlodi, ynysigrwydd cymdeithasol, iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a salwch/anabledd. Gall oedolyn sydd eisiau cam-drin plentyn yn rhywiol chwarae ar hyn, naill ai drwy gynnig help neu gymorth neu drwy ymddwyn mewn ffyrdd sy'n dwysáu'r nodweddion hyn, a allai gwestiynu capasiti a gallu'r rhiant (rhieni)/gofalwr (gofalwyr) ymhellach.

Mae plant sydd wedi'u hesgeuluso yn profi amddifadedd materol ac emosiynol, ynysiad, goruchwyliaeth wael a datblygiad wedi'i effeithio. Gall hyn arwain at hunanhyder isel, perthnasoedd gwael rhwng y rhieni a'r plentyn, sgiliau datrys problemau wedi'u heffeithio, diffyg hyder, perthnasoedd wedi'u heffeithio ac anawsterau o ran ceisio cymorth gan eraill. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o gael eu dwysáu os yw plentyn hefyd yn profi gwahaniaethu oherwydd eu hethnigrwydd, crefydd, rhywioldeb neu anabledd. Gallai oedolyn sydd eisiau cam-drin plentyn yn rhywiol fanteisio ar yr effeithiau hyn.

Pan fydd pryderon yn bodoli ynghylch esgeuluso plant, gallai fod yn anos i weithwyr proffesiynol ganolbwyntio ar bryderon eraill a allai fodoli. Yn ogystal, mae plant sydd wedi'u hesgeuluso yn llai tebygol o ddod i gysylltiad rheolaidd ac arferol gyda gweithwyr proffesiynol (oherwydd eu bod wedi methu apwyntiadau iechyd, peidio mynychu'r ysgol/meithrinfa a pheidio bod yn rhan o weithgareddau allgyrsiol). Felly, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd yn cael eu colli i geisio cymorth gan y gweithwyr proffesiynol hyn, felly mae'r arwyddion a'r dangosyddion o gam-drin plant yn rhywiol yn llai tebygol o gael eu nodi.

Dychwelyd i'r templed

Diffyg goruchwyliaeth y tu mewn a/neu'r tu allan i'r cartref, gan gynnwys y plant yn defnyddio'r rhyngwrwd heb unrhyw oruchwyliaeth

Mae plant nad ydynt yn cael eu goruchwyllo gan eu rhiant (rhieni)/gofalwr (gofalwyr) yn wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin yn rhywiol, y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd y cartref. Mae cael mynediad heb ei reoli i'r rhyngwrwd, diffyg goruchwyliaeth pan fydd brodyr a chworydd neu blant eraill yn y cartref, a chael aros allan o'r cartref am gyfnodau hir yn risgiau hysbys o gam-drin rhywiol.

[Dychwelyd i'r templed](#)

Dim ffiniau gan y rhieni, neu ffiniau anghyson, o ran preifatrwydd

Mae gan blant hawl i lefelau priodol o breifatrwydd yn ôl eu hoedran. Er mwyn iddyn nhw deimlo'n ddiogel, mae'n bwysig bod drysau ar ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi yn y cartref, yn ogystal â rheolau ynghylch pwy sy'n gallu mynd i mewn ac allan o ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi.

[Dychwelyd i'r templed](#)

Ffactorau sy'n cynyddu'r pwysau ar deuluoedd ac sy'n gallu tanseilio eu gallu i ddiogelu plant

Gallai cyfuniad o'r ffactorau hyn gynyddu'r cyfleoedd i deulu gael eu 'targedu' gan rywun sy'n dymuno cam-drin plant a/neu gyfaddawdu gallu rhieni/gofalwyr i ddiogelu eu plant

[Dychwelyd i'r templed](#)

Cam-drin domestig

Pan fydd cam-drin domestig yn digwydd o fewn y teulu, gallai plant ofni un neu'r ddau riant, a'u bod yn ofni dweud wrth unrhyw un am eu camdriniaeth am eu bod ofn beth fyddai'n digwydd iddyn nhw neu eu rhiant. Efallai eu bod yn ceisio cadw eu sefyllfa'n gyfrinach, a dod yn ynysig o ganlyniad i hyn. Gall pobl sydd eisiau eu niweidio fanteisio ar hyn.

[Dychwelyd i'r templed](#)

Salwch meddwl rhiant

Pan fydd gan riant salwch meddwl, gallai hyn amharu ar eu gallu i adnabod anghenion emosiynol eu plant. Yn ogystal, efallai na fydd plant eisiau dweud wrth eu rhieni beth sy'n eu poeni, rhag ofn gwaethygu anawsterau iechyd meddwl eu rhieni.

[Dychwelyd i'r templed](#)

Rhiant yn camdefnyddio alcohol neu sylweddau

If a child's parent(s) are misusing alcohol or drugs, the child may be exposed to inappropriate adults and behaviour; lack physical or emotional care; and be isolated from their friends because of shame, embarrassment or poor school attendance. As with mental health difficulties, parents may struggle to recognise their children's emotional needs, and children may not feel able to tell their parents what is worrying them for fear of exacerbating difficulties. The Crime Survey for England and Wales has found child sexual abuse to be three times as likely among adults who grew up with a member of their household misusing alcohol or drugs, compared with those who did not.

[Dychwelyd i'r templed](#)

Anableddau rhiant, gan gynnwys anableddau dysgu

Efallai y bydd gallu rhiant ag anabledd dysgu i ddeall beth sy'n digwydd i'w plentyn yn is; hefyd, efallai y bydd y teulu yn profi aflonyddwch a chamdriniaeth, a all gynyddu'r risg o gam-drin plant yn rhywiol, ac efallai nad yw'r plentyn yn teimlo y gall drafod hyn gyda'r rhiant rhag ofn y bydd hyn yn rhoi pwysau arnyn nhw. Gallai rhieni ag anabledd dysgu fod yn fwy agored i gael eu targedu gan bobl sydd eisiau cam-drin eu plentyn/plant yn rhywiol.

Dychwelyd i'r templed

Hanes o gam-drin/erledigaeth rywiol (e.e. profiad rhiant o gamdriniaeth pan oeddent yn blentyn)

Er bod unrhyw riant sydd wedi profi camdriniaeth pan yn blentyn yn debygol o fod yn benderfynol o beidio â gadael i'w plentyn hwy brofi hyn hefyd, gall eu profiadau hwy olygu eu bod yn agored i berthnasoedd camdriniol yn y dyfodol, diffyg hyder ynghylch ymddygiad a ffiniau rhywiol, gor-hyder ynghylch eu gallu i adnabod camdriniaeth, neu ddealltwriaeth ystumiedig o ryw a pherthnasoedd. Gallai anawsterau sy'n deillio o'u camdriniaeth, er enghraifft camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl gwael, beryglu eu gallu i ddiogelu ymhellach.

Dychwelyd i'r templed

Sut y datblygwyd
y templed hwn

Wrth ddatblygu'r templed hwn, fe adolygodd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (Canolfan CPRh) arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol a nodwyd gan sefydliadau allweddol, gan gynnwys yr NSPCC, Sefydliad Lucy Faithfull a'r Coleg Pediatreg ac Iechyd Plant. Gweler ([Sefydliadau arbenigol allweddol](#) am restr lawn.)

Canfuom lefel uchel o gonsensws ynghylch yr arwyddion y dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn adnabod cam-drin rhywiol posibl. Er bod rhywfaint o amrywiaeth yng ngeiriad y dangosyddion, mae cryn gyffredinedd rhwng y rhestrau a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y sefydliadau hyn, ac mae'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn ein templed wedi'u cynnwys yn y rhan fwyaf, os nad pob un o'r ffynonellau hyn.

Er gwaethaf y consensws hwn, nid yw deall y sylfaen dystiolaeth sylfaenol yn syml. Tystiolaeth ymchwil gyfyngedig sydd ar gael ar arwyddion a dangosyddion penodol cam-drin plant yn rhywiol ac anaml iawn y mae cysylltiad uniongyrchol rhwng dangosydd penodol ac astudiaeth gadarn o'u fynychder neu gyffredinrwydd mewn achosion cam-drin rhywiol. I raddau helaeth, mae hyn oherwydd ei bod yn anodd cynnal astudiaethau o'r fath yn fethodolegol ac yn foesol. Felly, mae'r dystiolaeth o berthnasedd y gyfres hon o arwyddion a dangosyddion yn deillio o sawl ffynhonnell. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau ymchwil 'tirnod' ym maes cam-drin plant yn rhywiol; trosolwg diweddar o ymchwil; dystiolaeth goroeswyr; arfer clinigol a phroffesiynol gyda phlant ac oedolion sydd wedi'u cam-drin dros y pedwar degawd diwethaf.

Mae dystiolaeth fforensig yn cefnogi nifer o'r dangosyddion corfforol sydd wedi'u cynnwys, ac mae'r ymchwil a'r arfer gydag oedolion sy'n cam-drin plant yn rhywiol, a gyda phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, wedi nodi dangosyddion paratol i bwrrpas rhyw a chamdriniaeth.

Mae yna dystiolaeth arbennig o gryf ar effeithiau cam-drin plant yn rhywiol (rhai tymor byr a hirdymor) ac mae ein templed yn tynnu ar hyn drwy awgrymu sut mae'r effeithiau hyn yn debygol o amlygu eu hunain mewn ymatebion nad ydynt yn llafar, ond y gellir eu harsylwi serch hynny, ac ymddygiad plant. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai grwpiau o blant – gan gynnwys bechgyn, plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phlant anabl – yn llai tebygol o gael eu hadnabod nac eraill, ac felly efallai nad yw dangosyddion camdriniaeth a allai fod yn gysylltiedig â grwpiau penodol fod wedi'u cynrychioli'n dda mewn ymchwil presennol.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r templed hwn wedi bod yn broses adolygu gadarn, gan gynnwys adborth gan:

- arbenigwyr mewn sefydliadau yn y DU sy'n gweithio ym maes cam-drin plant yn rhywiol
- arbenigwyr drwy brofiad:
 - grŵp ffocws gydag oedolion â phrofiad o gael eu cam-drin yn rhywiol
 - grŵp ffocws gyda phobl ifanc ag anabledau dysgu sy'n darparu hyfforddiant i bobl ifanc eraill ar gamfanteisio'n rhywiol
- gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio ar draws meysydd iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol

Allnock, D. A Hynes, P. (2012) Therapeutic Services for Sexually Abused Children and Young People: Scoping the Evidence Base. Summary Report. Llundain: NSPCC.

Beckett, H., Brodie, I., Factor, F., Melrose, M., Pearce, J., Pitts, J., Shuker, L. a Warrington, C. (2013) "It's Wrong... but You Get Used to It": A Qualitative Study of Gang-associated Sexual Violence towards, and Exploitation of, Young People in England. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Beckett, H., Brodie, I., Factor, F., Melrose, M., Pearce, J., Pitts, J., Shuker, L. a Warrington, C. (2012) Research into Gang-associated Sexual Exploitation and Sexual Violence. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Bentovim, A., Boston, P. a van Elburg, A. (1987) Child sexual abuse – children and families referred to a treatment project and the effects of intervention. *British Medical Journal (Clin Res Ed)*, 295:1453. <https://doi.org/10.1136/bmj.295.6611.1453>

Berliner, L. a Conte, J. (1990) The process of victimization: The victims' perspective. *Child Abuse & Neglect*, 14(1):29–40. [https://doi.org/10.1016/0145-2134\(90\)90078-8](https://doi.org/10.1016/0145-2134(90)90078-8)

Brown, S., Brady, G., Franklin, A., Bradley, L., Kerrigan, N. a Sealey, C. (2016) *Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability*. Llundain: Early Intervention Foundation.

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2015) *The Physical Signs of Child Sexual Abuse: An Evidence-based Review and Guidance for Best Practice*. Llundain: CBPIP.

Conte, J., Wolf, S. a Smith, T. (1989) What sexual offenders tell us about prevention strategies. *Child Abuse & Neglect*, 13(2):293–301. [https://doi.org/10.1016/0145-2134\(89\)90016-1](https://doi.org/10.1016/0145-2134(89)90016-1)

Craven, S., Brown, S. a Gilchrist, E. (2006) Sexual grooming of children: Review of literature and theoretical considerations. *Journal of Sexual Aggression*, 12(3):287–299. <https://doi.org/10.1080/13552600601069414>

Everson, M. a Faller, K. (2012) Base rates, multiple indicators, and comprehensive forensic evaluations: Why sexualized behavior still counts in assessments of child sexual abuse allegations. *Journal of Child Sexual Abuse*, 21(1):45–71. <https://doi.org/10.1080/10538712.2012.642470>

Finkelhor, D. a Baron, L. (1986) High-risk children. Yn Finkelhor, D. (gol.) *A Sourcebook on Child Sexual Abuse*. Beverly Hills, CA: SAGE Publications.

Fisher, C., Goldsmith, A., Hurcombe, R. a Soares, C (2017) *The Impacts of Child Sexual Abuse: A Rapid Evidence Assessment*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Hackett, S., Phillips, J., Masson, H. a Balfe, M. (2013) Individual, family and abuse characteristics of 700 British child and adolescent sexual abusers. *Child Abuse Review*, 22(4):232–245. <https://doi.org/10.1002/car.2246>

Herman, S. (2009) Forensic child sexual abuse evaluations: Accuracy, ethics, and admissibility. Yn Kuenhle, K. a Connell, M. (gol.) *The Evaluation of Child Sexual Abuse Allegations: A Comprehensive Guide to Assessment and Testimony*. Hoboken, NJ: Wiley.

Herman, J. a Hirschman, L. (1981) Families at risk for father-daughter incest. *American Journal of Psychiatry*, 138(7):967–970. <https://doi.org/10.1176/ajp.138.7.967>

Jay, A., Evans, M., Frank, I. a Sharpling, D. (2019) *Sexual Abuse of Children in Custodial Institutions: 2009–2017. Investigation Report*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Jonas, S., Bebbington, P., McManus, S., Meltzer, H., Jenkins, R., Kuipers, E., Cooper, C., King, M. a Brugha, T. (2011) Sexual abuse and psychiatric disorder in England: Results from the 2007 Adult Psychiatric Morbidity Survey. *Psychological Medicine*, 41(4):709–719. <https://doi.org/10.1017/S003329171000111X>

Jones, L., Bellis, M., Wood, S., Hughes, K., McCoy, E., Eckley, L., Bates, G., Mikton, C., Shakespeare, T. ac Officer, A. (2012) Prevalence and risk of violence against children with disabilities: A systematic review and meta-analysis of observational studies. *The Lancet*, 380(9845):899–907.

Karsna, K. a Kelly, L. (2021) *The Scale and Nature of Child Sexual Abuse: Review of Evidence*. Barkingside: y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

McNeish, D., Kelly, L. a Scott, S. (2019) *Effectiveness of Services for Sexually Abused Children and Young People. Report 1: A Knowledge Review*. Barkingside: y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

McNeish, D a Scott, S (2018) *Key Messages from Research on Children and Young People Who Display Harmful Sexual Behaviour*. Barkingside: y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

McNeish, D. a Scott, S. (2018) *Key Messages from Research on Intra-familial Child Sexual Abuse*. Barkingside: y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

One in Four (2015) *Survivors' Voices: Breaking the Silence on Living with the Impact of Child Sexual Abuse in the Family Environment*. Llundain: One in Four.

Nelson, S (gol.) (2012) *Surviving Well? Good Practice for Health Professionals Working with Survivors of Childhood Abuse*. Falkirk: Open Secret.

Pool, Z. a Jacobs, M. (2017) *Counselling Adult Survivors of Childhood Abuse: From Hurting to Healing*. Llundain: McGraw-Hill Education.

Scott, S. a McManus, S. (2016) *Hidden Hurt: Violence, Abuse and Wider Disadvantage in the Lives of Women*. Llundain: Agenda.

Sidebotham, P., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Dodsworth, J., Garstang, J., Harrison, E., Retzer, A. a Sorenson, P. (2016) *Pathways to Harm, Pathways to Protection: A Triennial Analysis of Serious Case Reviews 2011 to 2014*. Llundain: Adran Addysg.

Truth Project (2018) *Truth Project Experiences Shared: Victims and Survivors Speak Out*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Walker, K., Pillinger, C. a Brown, S. (2018) *Characteristics and Motivations of Perpetrators of Child Sexual Exploitation: A Rapid Evidence Assessment of Research*. Barkingside: y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Ward, R. a Rodger, H. (2018) *Child Sexual Abuse in Residential Schools: A Literature Review*. Llundain: y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Warrington, C., Beckett, H., Ackerley, E., Walker, M. ac Allnock, D. (2017) *Making Noise: Children's Voices for Positive Change after Sexual Abuse*. Luton: Prifysgol Swydd Bedford.

Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2021) *Victims and Survivors Forum Consultation on Protected Characteristics: Summary Report*. Llundain: YAGPR.

Mae nifer o sefydliadau amrywiol wedi cynhyrchu rhestrau tebyg o arwyddion a dangosyddion o gam-drin plant yn rhywiol. Cafodd y templed hwn ei hysbysu gan:

Llywodraeth EM

What to Do if You're Worried a Child is Being Abused: Advice for Practitioners

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/419604/What_to_do_if_you_re_worried_a_child_is_being_abused.pdf

NHS

Spotting Signs of Child Sexual Abuse

www.nhs.uk/live-well/healthy-body/spotting-signs-of-child-sexual-abuse/

NSPCC

Sexual Abuse

www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/child-sexual-abuse/

Parents Protect

Warning Signs in Children and Adults

www.parentsprotect.co.uk/warning-signs-in-children-and-adults.htm

Stop It Now!

Signs a Child Might Be Abusing

www.stopitnow.org.uk/concerned-about-a-child-or-young-persons-sexual-behaviour/signs-a-child-might-be-abusing/

Upstream

Warning Signs That a Child Is Being Sexually Abused or Exploited

www.theupstreamproject.org.uk/identify/warning-signs

Research in Practice

Intra-familial Child Sexual Abuse: Risk Factors, Indicators and Protective Factors

www.researchinpractice.org.uk/children/publications/2018/april/intra-familial-child-sexual-abuse-risk-factors-indicators-and-protective-factors-practice-tool-2018/

Llywodraeth Cymru

Cadw Plant a Phobl Ifanc yn Ddiogel: Canllawiau Diogelu ar Gyfer Ymarferwyr sy'n gweithio gyda Phlant (hyd at 18 oed)

<https://llyw.cymru/cadw-plant-phobl-ifanc-yn-ddiogel-canllaw-anstatudol-i-ymarferwyr>

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

Child Abuse and Neglect (NG76)

www.nice.org.uk/guidance/ng76

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

The Physical Signs of Child Sexual Abuse: An Evidence-based Review and Guidance for Best Practice

www.rcpch.ac.uk/shop-publications/physical-signs-child-sexual-abuse-evidence-based-review

National Autistic Society

Safeguarding Young People on the Autism Spectrum

www.wkrs.co.uk/_site/data/files/documents/safeguarding/45DEC84F7C813B24AC23B0C1B9106EE1.pdf

Arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol – sefydliadau arbenigol allweddol